# Ysgolion o fewn y traddodiad Cristnogol

## Ysgolion OneSchool Global (annibynnol)

**Cefndir**

Caiff ysgolion OneSchool Global eu cynnal gan gymunedau lleol Exclusive Christian Brethren. Mae'r ysgolion hyn yn darparu ar gyfer disgyblion oedran uwchradd yn bennaf. Cefnogir yr ysgolion hyn gan y cymunedau ffydd lleol. Yn gyffredinol, nid yw athrawon a phenaethiaid yn aelodau o gymuned Exclusive Brethren.

Mae datblygiadau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) wedi ysgogi newid sylweddol diweddar i'r cwricwlwm. Mae ysgolion wedi eu cysylltu â rhwydwaith a gynhelir gan y Focus Learning Trust a gallant ddefnyddio meddalwedd sydd wedi'i thrwyddedu gan yr Ymddiriedolaeth. Hefyd, gallent ddefnyddio fideo gynadledda ag ysgolion eraill OneSchool Global i ymestyn cyfleoedd o fewn y cwricwlwm. Efallai na fydd gan ddisgyblion fynediad at deledu, radio neu gyfryngau electronig gartref.

**Cwricwlwm**

Er bod disgyblion yn aml yn cael eu haddysgu gyda'i gilydd, mewn gwersi fel addysg gorfforol, gemau, dawns neu nofio, mae disgyblion yn tueddu i gael eu haddysgu mewn grwpiau rhywiau ar wahân. Hefyd, ceir ymagwedd fwy traddodiadol at dechnoleg, gan roi'r pwyslais ar bynciau ymarferol, fel coginio, gwaith gwnïo a gwaith coed.

Roedd y gymuned yn osgoi technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn draddodiadol, ond caiff ei defnyddio'n ehangach ar gyfer pynciau fel astudiaethau busnes erbyn hyn. Gan fod Exclusive Brethren yn ystyried y cyfryngau yn niweidiol ar y cyfan, caiff mynediad at y rhyngrwyd ei reoli'n llym.

Yn aml, mae ysgolion Brethren yn dechrau'n gynnar ac yn gorffen yn gynharach na'r hyn sy'n arferol mewn ysgolion eraill. Er bod rhai ysgolion yn darparu clybiau amser cinio, nid oes unrhyw glybiau ar ôl yr ysgol oherwydd y gred fod angen i blant dreulio cymaint o amser ag y bo modd gyda'r teulu. Mae'r rhan fwyaf o deuluoedd Brethren yn mynychu cyfarfod gyda'r nos bob dydd, ac mae plant yn teithio pellterau sylweddol i fynd i'r ysgol hefyd.

Wrth siarad â’r plant, dylid osgoi cyfeirio at bynciau sy’n gysylltiedig â’r teledu neu ddiwylliant poblogaidd, y rhyngrwyd neu’r cyfryngau yn gyffredinol. Efallai na fydd gan blant fynediad at deledu, radio neu’r rhyngrwyd gartref.

**Moesau**

Dylai arolygwyr benywaidd ystyried gwisgo sgertiau yn hytrach na throwsusau, a gwisgo yn unol â’r hyn y byddai’r ysgolion yn ei ystyried yn weddus.

Gallai’r ysgolion hyn gynnig lletygarwch a lluniaeth, ond yn gyffredinol, maent yn disgwyl i arolygwyr fwyta neu yfed y lluniaeth i ffwrdd oddi wrth aelodau’r gymuned, gan nad yw Exclusive Brethren yn bwyta nac yn yfed gyda’r rhai y tu allan i’w cymdeithas eu hunain. Mae’r rhan fwyaf o ysgolion yn fach, ac yn aml, nid ydynt yn gweini bwyd ar y safle: efallai nad yw’n briodol tarfu ar blant sy’n dod â phecynnau cinio o gartref yn ystod amseroedd prydau bwyd, a chael trafodaethau â’r plant. Dylai arolygwyr ddod â’u cinio eu hunain. Ychydig iawn o staff sy’n aelodau o gymuned Exclusive Brethren, felly gallai fod yn bosibl siarad â’r pennaeth neu aelodau staff eraill yn ystod amser coffi neu amser cinio.

Nid yw llawer o ferched yng nghymuned Exclusive Brethren yn torri eu gwallt ac maent fel arfer yn gwisgo sgarff pen neu ruban yn y gwallt. Nid yw bechgyn yn gwisgo teis.